**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ**
**Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag Adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, wedi ymgynghori a'r cyfryw bersonau sy'n ofynnol, yn cynnig yr isod:

1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnig sefydlu ysgol gymysg cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer plant o 3 – 11, i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar safleoedd Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod.

O ganlyniad i'r cynigion a amlinellir uchod:

2. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnig cau YSGOL GLAN GELE, FFORDD Y MORFA, ABERGELE, LL22 7NU. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cynigir gweithredu'r cynnig ar 31ain Awst 2026.

3. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnig cau YSGOL SANT ELFOD, FFORDD Y MORFA, ABERGELE, LL22 7NU. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cynigir gweithredu'r cynnig ar 31ain Awst 2026.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael yma: www.conwy.gov.uk/ymgynghoriadysgolionabergele.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1af o Fedi 2026.

Bydd disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol sydd i gau yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol newydd a gynigir oni bai bod rhieni/gofalwyr yn gwneud cais fel arall.

Bydd yr ysgol newydd a gynigir yn ysgol gymunedol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fydd yr awdurdod derbyn.

77 fydd y nifer derbyn ar gyfer yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu.

540 fydd capasiti disgyblion yr ysgol newydd gyda 31 o leoedd meithrin wedi'u darparu.

Bydd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn dal i gael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn fodlon mai'r cynnig hwn yw'r ymateb mwyaf priodol i amgylchiadau'r ysgol yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd i'r Cabinet yn yr adroddiad ar y cynnig ar 8fed o Hydref 2024.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **25ain o Fai 2025**, drwy:

ein ffurflen ar-lein yn: www.conwy.gov.uk/ymgynghoriadysgolionabergele

drwy e-bost at: School.Modernisation@conwy.gov.uk neu

yn ysgrifenedig at: Y Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a wneir o fewn y cyfnod gwrthwynebu (nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) ynghyd â sylwadau'r Cyngor ar y gwrthwynebiadau, o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Dr Lowri Brown,
Pennaeth Gwasanaethau Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**NODYN ESBONIADOL**

Y cynnig yw cyfuno Ysgol Glan Gele (Babanod) ac Ysgol Sant Elfod (Iau) yn ffurfiol.

Bydd y cynnig i uno Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod yn golygu cau'r ddwy ysgol yn ffurfiol ac yna agor ysgol newydd.

Byddai'r ysgol arfaethedig yn aros ar y ddau safle ar wahân presennol, dan arweiniad un Pennaeth ac un bwrdd llywodraethu, ond gyda'r un strwythur rheoli, datganiad o fwriad, gwerthoedd, logos, gwisg, polisïau a gweithdrefnau.

Amlinellwyd y rhesymau dros y cynnig hwn a'r ffactorau a ystyriwyd yn y Ddogfen Cynigion a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 8fed o Hydref 2024.

Mae copi o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi dechrau Cyfnod Gwrthwynebu rhwng 28ain o Ebrill a 25ain o Fai 2025 ac mae'n cynnwys y cyfeiriad ar gyfer anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig.

Gellir gweld yr holl ddogfennau perthnasol i'r cynnig hwn yn:
www.conwy.gov.uk/ymgynghoriadysgolionabergele

**This document is also available in English.**